# Electroboreiddio na ellir ei wrthdroi ar gyfer trin canser y pancreas

26 Ebrill 2017

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil ar gyfer canser y pancreas y gellir gwneud y driniaeth hon. Mae hyn am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Canser y pancreas yw pan mae celloedd annormal yn tyfu yn y pancreas, chwarren fawr y tu ôl i'r stumog. Yn y driniaeth hon, gosodir nodwyddau arbennig i mewn i'r canser yn y pancreas. Yna caiff curiadau trydanol foltedd uchel byr eu pasio drwy'r nodwyddau. Y nod yw dinistrio'r celloedd canser.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2454-7

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights